# Diwygio Cyfraith Breifat Cafcass Cymru

## Achos Cyfraith Breifat: Beth i'w ddisgwyl pan fydd y Llys yn penodi Gwarcheidwad Plant o dan Reol 16.4

**Mehefin 2023**

Os bydd y llys teulu yn penderfynu gwneud eich plentyn neu blant yn barti neu'n bartïon i achos llys preifat, bydd yn gorchymyn Cafcass Cymru i benodi gwarcheidwad plant i'w gynrychioli neu i'w cynrychioli. Dim ond os bydd yr achos yn cynnwys mater anodd neu gymhleth y bydd y llys teulu'n gwneud hyn. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 16A a Rheol 16.4 o Reolau Trefniadaeth Teulu yn nodi rheolau'r llys ynghylch penodi gwarcheidwaid plant a'u rôl.

## Beth yw gwarcheidwad plant o dan reol 16.4?

- Mae'r gwarcheidwad plant yn rhoi cyngor i'r llys ac yn sicrhau y caiff buddiannau a llais eich plentyn eu clywed yn yr achos.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig sy'n gweithredu fel person annibynnol i ganolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'ch plentyn.
- Bydd hefyd yn penodi cyfreithiwr i weithredu ar ran eich plentyn yn y llys. Ni fydd penodi gwarcheidwad plant yn effeithio ar bwy sydd â chyfrifoldeb rhiant am eich plentyn.
- Daw ei rôl i ben pan fydd y llys yn gwneud gorchymyn terfynol.

## Beth mae'r gwarcheidwad plant yn ei wneud?

- Bydd y gwarcheidwad plant yn siarad â'ch plentyn ac aelodau eraill o'ch teulu.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn treulio amser yn ceisio deall sefyllfa eich plentyn a'r hyn sy'n bwysig iddo.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn deall y gall eich plentyn fod yn teimlo'n ddryslyd neu'n bryderus, ac y gall gymryd amser i brosesu ei deimladau a'i feddyliau.
- Bydd yn sicrhau bod eich plentyn yn deall beth sy'n digwydd yn yr achos a bod ganddo hawl i gymryd rhan ynddo.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn gweithio gyda chi a rhiant neu ofalwr arall eich plentyn i geisio eich helpu i ddod i gytundeb diogel ynghylch beth ddylai ddigwydd, a bydd hefyd yn gwneud argymhelliad proffesiynol i'r llys teulu.

## Pa mor aml y bydd y gwarcheidwad plant yn gweld fy mhlentyn?

- Mae pob teulu'n wahanol, ond fel arfer, bydd y gwarcheidwad plant yn cwrdd â'ch plentyn sawl gwaith, a bydd yn ei weld gyda'r rhieni neu ofalwyr pan fydd hynny'n ddiogel.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn penderfynu gyda'ch plentyn sut y byddai'n hoffi i'w lais gael ei glywed yn yr achos ac fel arfer bydd yn trefnu iddo gwrdd â'i gyfreithiwr.

## Gyda phwy arall y bydd y gwarcheidwad plant yn siarad?

- Gall y gwarcheidwad plant siarad ag ysgol eich plentyn, neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'ch teulu.
- Os oes gan eich plentyn weithiwr cymdeithasol o'r Awdurdod Lleol (gwasanaethau plant), bydd y gwarcheidwad plant fel arfer yn siarad ag ef a gall fynd i gyfarfodydd a drefnwyd ganddo.
- Os oes gan eich plentyn weithiwr cymdeithasol yn gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, bydd y gwarcheidwad yn trafod gyda chi a'r gweithiwr cymdeithasol beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'ch plentyn, i sicrhau nad yw eich plentyn yn teimlo ei fod yn siarad â gormod o weithwyr proffesiynol.

## Sut y bydd y gwarcheidwad plant yn rhannu ei farn â'r llys?

- Fel arfer, bydd y gwarcheidwad plant yn ysgrifennu dau adroddiad ar gyfer y llys.
- Bydd yr adroddiad cychwynnol yn canolbwyntio ar ba faterion y bydd angen ymchwilio iddynt neu eu datrys, a pha mor hir y mae hyn yn debygol o'i gymryd.
- Bydd y gwarcheidwad plant hefyd yn ysgrifennu adroddiad ar ddiwedd ei waith fel arfer, yn nodi ei argymhellion ynghylch pa orchymyn fydd orau ar gyfer diwallu anghenion eich plentyn a'i gadw'n ddiogel.
- Bydd y gwarcheidwad plant bob amser yn ceisio trafod ei argymhellion gyda chi cyn cyflwyno ei adroddiad.

## A fydd y gwarcheidwad plant bob amser yn cytuno â dymuniad fy mhlentyn?

- Na fydd. Gall fod adegau pan fydd y gwarcheidwad plant yn gwneud argymhellion sy'n wahanol i ddymuniad eich plentyn.
- Mae hyn oherwydd y gall fod ganddo farn wahanol i'ch plentyn ar yr hyn sydd ei angen i'w gadw'n ddiogel, neu i ddiwallu ei anghenion.
- Hyd yn oed os bydd gan y gwarcheidwad plant farn wahanol, bydd yr adroddiad yn cynnwys dymuniadau a theimladau eich plentyn.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn esbonio ei argymhellion yn ofalus i'ch plentyn ac i chi.

## Beth os na fyddaf yn cytuno â'r gwarcheidwad plant?

- Os yw'n bosibl, bydd y gwarcheidwad plant yn ceisio helpu'r oedolion yn yr achos i ddod i gytundeb diogel ar yr hyn fydd orau er mwyn bodloni dymuniadau eich plentyn a diwallu ei anghenion.
- Cewch gyfle i ddweud wrth y llys os na fyddwch yn cytuno â'r argymhellion a bydd y llys yn gwrando ar farn pob parti cyn dod i benderfyniad.
- Gall achosion teuluol fod yn anodd ac yn llawn straen ac rydym yn deall y gallant wneud pobl yn drist ac yn rhwystredig ar adegau. Bydd Cafcass Cymru yn eich trin chi a'r partïon eraill â chwrteisi a pharch, ac rydym yn gofyn i chi wneud yr un peth.

## Am ba hyd y bydd yr achos yn para?

- Ein nod yw cwblhau ein gwaith â'ch teulu cyn gynted ag y bo modd, fel y gall y llys wneud ei benderfyniad.
- Rydym yn deall bod achosion llys hir yn llawn straen ac y gallant gael effaith negyddol ar lesiant emosiynol plant a rhieni ac aelodau eraill o'r teulu.
- Cadwch at bob apwyntiad y bydd y gwarcheidwad plant yn ei drefnu gyda chi a'ch plentyn. Os byddwch yn symud, neu'n newid eich manylion cyswllt neu gyfreithiwr, dywedwch wrth Cafcass Cymru ar unwaith.

## Sut y gallaf gysylltu â'r gwarcheidwad plant?

- Bydd y gwarcheidwad plant yn rhoi ei rif ffôn swyddfa a'i gyfeiriad e-bost. Byddwch yn gallu gadael neges os na fydd ar gael.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn ceisio dychwelyd galwadau'n brydlon, ond gall fod adegau pan fydd ar wyliau neu pan fydd ganddo ymrwymiadau llys sy'n golygu na all ddod yn ôl atoch ar unwaith.

## Beth os byddaf yn poeni am fy mhlentyn?

- Os bydd gennych bryderon diogelu uniongyrchol am eich plentyn dylech gysylltu â'r Awdurdod Lleol (gwasanaethau plant) neu, os ydych yn credu bod risg uniongyrchol, dylech gysylltu â'r heddlu.
- Nid asiantaeth ddiogelu statudol yw Cafcass Cymru. Byddwn yn gwneud atgyfeiriad diogelwch i'r Awdurdod Lleol os byddwn yn pryderu am ddiogelwch neu lesiant plentyn.

## Beth os byddaf yn poeni am fy niogelwch i?

- Os byddwch yn credu eich bod yn wynebu risg o gam-drin domestig neu os ydych wedi profi cam-drin domestig, byddai'n well i chi drafod hyn â'r gwarcheidwad plant cyn gynted ag y bo modd. Os oes honiadau o gam-drin domestig, rhaid i'r llys roi ystyriaeth i Gyfarwyddyd Ymarfer 12J.
- Gallwch gysylltu â Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 80 10 800 neu ewch i'r wefan yn https://www.llyw.cymru/byw-heb-ofn. Cynigir y gwasanaeth i fenywod a dynion ac mae hefyd yn rhoi cyngor i aelodau'r teulu a all fod yn pryderu am rywun.